

**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau**  
**Cyfarfod Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**  
**29 Ebrill 2025 am 12:30, yn 3.3 CQ2 a thros Microsoft Teams**

<b>Yn bresennol:</b>		
Kate Young	(KY)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector).
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)
<b>Yn Bresennol:</b>		
Rachel Attwood	(RA)	Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Michelle Battlemuch	(MB)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Lucy Day	(LD)	Rheolwr Busnes
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitemau 4 a 5)
Ffion Grundy	(FG)	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Rhiannon Windsor	(RW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol (Gweithrediaeth y GIG) (ar gyfer eitem 11)
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Liz Heath	(LH)	Cynrychiolydd ochr staff
Clare Jenkins	(CJ)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
<b>Ysgrifenyddiaeth</b>		
Ffion Lloyd	(FL)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Dechreuodd y cyfarfod am 12:30		

<b>Rhan A</b>	
<b>PODC</b> <b>1/2025.04.29</b>	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b>
<p>Agorodd KY y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.</p> <p><b>Nododd</b> y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf ar 16 Gorffennaf 2025.</p> <p><b>Nodwyd</b> yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.</p>	
<b>PODC</b> <b>1.1/2025.04.29</b>	<b>Datganiadau o Fuddiant</b>
<p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.</p>	
<b>PODC 1.2/</b> <b>2025.04.29</b>	<b>Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod (09 Gorffennaf 2024)</b>
<p><b>Cymeradwyodd</b> y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 17 Chwefror 2025.</p> <p><b>Cymeradwyodd</b> y Pwyllgor y Log Gweithredu.</p>	
<b>Mewn Ffocws / Archwiliad Dwfn</b>	
<b>PODC 2/</b> <b>2025.04.29</b>	<b>Ymrwymadau Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) Pobl a Datblygu Sefydliadol ar gyfer 2025-26</b>
<p>Rhoddodd RA gyflwyniad ar ymrwymadau cynllun tymor canolig integredig (IMTP) Pobl a Datblygu Sefydliadol ar gyfer 2025-26.</p> <p>Nododd RA y byddai'r ymrwymadau'n cael eu defnyddio i gyflawni'r ymrwymadau Strategaeth Hirdymor, Strategaeth Pobl ac Ansawdd Strategol.</p> <p>Tynnodd RA sylw at y meysydd ffocws allweddol ar gyfer cyfnod 3 blynedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig (2025 – 2028) a fyddai'n cael eu cytuno'n flynyddol gyda Llywodraeth Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu map ffordd profiad staff i wella llesiant, dilyniant gyrfa ac amrywiaeth. Byddai hyn yn defnyddio'r arolwg staff a'r arolwg diwylliant pwls i ganolbwyntio ar bwyntiau i'w gwella</li> <li>• Datblygu adnewyddu'r Strategaeth Pobl a chynllun gweithredu 2035. Nododd RA y byddai fersiwn derfynol y strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd i'w chymeradwyo ym mis Mai 2025, gyda'r cynllun gweithredu wedi'i gwblhau erbyn diwedd chwarter tri.</li> <li>• Datblygu dull rheoli perfformiad i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol a gwella ymgysylltiad staff. Byddai hyn yn cynnwys ystyried dulliau amgen i'r system arfarnu.</li> <li>• Datblygu a sefydlu rhaglen i gynyddu sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth, er mwyn creu amgylchedd i helpu staff i ffynnu ac i gefnogi cyflawniad y Ddyletswydd Ansawdd a Deddf</li> </ul>	



Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys y lleoliadau o fewn yr Academi Arweinyddiaeth a Rheolaeth, a datblygu offeryn adborth 360 pwrpasol yn seiliedig ar y fframwaith ymddygiadol. Datblygwyd rhaglen hyfforddi ar gyfer Gweithredwyr a'r rhai sy'n atebol iddynt i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth.

- Y nod yw sefydlu gweledigaeth ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent. Byddai hyn yn cynnwys:
  - Ehangu mynediad drwy brentisiaethau a phrofiad gwaith
  - Gwella arferion gweithio hyblyg
  - Cryfhau perthnasoedd â sefydliadau academiaidd
- Y nod yw sefydlu Teuluoedd Swyddi Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy fuddsoddi mewn datblygiad gyrfa a denu/cadw'r sgiliau gofynnol.
- Datblygu cynllun gweithlu strategol a fyddai'n cael ei integreiddio â'r broses gynllunio flynyddol, a fyddai'n caniatáu gwell dealltwriaeth o gapasiti a dyrannu adnoddau.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- A oedd y meysydd allweddol i'w datblygu yn glir ar y cam hwn? Rhoddodd RA sicrwydd bod adborth arolygon defnyddwyr gwasanaeth a data ymgysylltu â'r fewnwyd wedi rhoi cipolwg addysgiadol ar yr hyn sydd ei angen fwyaf ar ddefnyddwyr a'r ffordd orau o ymgysylltu â phobl yn y dyfodol.
- Yr hyn y mae'r cynlluniau o ran amrywiaeth yn ceisio'i gyflawni – nododd RA y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ceisio bod yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru ar lefel sefydliadol, ond ei fod wedi cytuno gyda'r Tîm Gweithredol Busnes y byddai amcanion amrywiaeth ar lefel cyfarwyddiaeth hefyd yn cael eu cyflwyno.
- Nododd NL y gwaith a wnaed ar yr Hwb Gwella a'i effaith ddisgwyliedig ar y gwaith o weithredu'r newidiadau.
- Ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol ar yr eitem hon, byddai cynrychiolaeth weledol o'r newidiadau a adroddwyd yn cynorthwyo i amlygu'r cynnydd a wnaed yn y meysydd a nodwyd.
- Dylai'r gwaith ar Swyddi i Deuluoedd gynnwys ystyriaeth o sut i annog pobl o gefndiroedd addysgol a phrofiadau amrywiol i wneud cais am swyddi o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nodwyd y dylai hyn gynnwys pobl ifanc ar ddechrau eu gyrfaedd ochr yn ochr ag oedrannau ysgol a phrentisiaeth, a bod uwchsgilio cenedlaethau'r dyfodol yn bwysig. Nododd NL fod trafodaethau wedi'u trefnu gydag SS a chydweithwyr i fynd i'r afael â hyn fel maes ffocws allweddol.

Diolchodd KY i RA am y cyflwyniad, ac i'r tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol ehangach am eu gwaith yn y maes hwn.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynllunio ar gyfer gweithredu'r prif gyflawniadau Pobl a Datblygu Sefydliadol o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025/26.

**Y Gweithlu a Chynllunio'r Gweithlu**

PODC 3/  
2025.04.29

Diweddariad ar Reoli Newid Sefydliadol

Rhoddodd NL drosolwg o'r adroddiad a oedd yn crynhoi cynnydd y rhaglen newid strategol, a oedd yn cynnwys cynnydd rhaglenni haen un a dau.

Awgrymodd NL y gallai cyfarfod yn y dyfodol gynnwys diweddariad ar y rhaglenni gyda chydweithwyr o'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni i'w trafod yn fanylach.

Tynnodd NL sylw at bwyntiau allweddol yr adroddiad:

- Diogelu lechyd Digidol - yn aros am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru cyn y gallai fwrw ymlaen.
- Trawsnewid y We – roedd cynnydd da wedi'i wneud ond roedd oedi wrth fudo cynnwys a'r angen i adolygu'r cynnwys yn golygu bod angen mwy o amser. i'w gwblhau.
- Sgrinio baban newydd-anedig – roedd cynnydd wedi'i wneud, ac roedd cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer rheolwr prosiect yn y maes hwn.
- Gweithredwr y GIG – byddai Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol newydd Gweithredwr y GIG yn ymuno â'r cyfarfod ar gyfer eitem yn ddiweddarach ar yr agenda i roi sicrwydd ynghylch hyn.
- Rheoli cofnodion – roedd ymarfer dysgu yn cael ei gynnal ar hyn o bryd

Trafododd y Pwyllgor fod angen mwy o eglurder bod yr wybodaeth yn yr adroddiad yn grynodedd sefydlog yn hytrach na dogfen fyw, ac nad oedd yr amserlenni a gynhwyswyd yn cyd-fynd â'r amserlenni disgwylidig cyfredol ar gyfer y rhaglenni. Nododd NL hefyd y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei drafod gyda chydweithwyr y tu allan i gyfarfodydd i drafod sut y gellid cyflwyno'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys gyda ffocws mwy ar bobl.

**Cam Gweithredu: NL**

Cytunodd y Pwyllgor i gymryd **sicrwydd** ynghylch yr wybodaeth a ddarparwyd.

**Rheoli Risg**

**PODC 4/  
2025.04.29**

**Cofrestr Risg Strategol (Risg 4)**

Rhoddodd SS ddiweddariad ar sefyllfa reoli risg strategol 4 ar 1 Chwefror 2025.

Nododd SS y gwaith a wnaed i gwblhau adnewyddu'r Gofrestr Risg Strategol gan ddefnyddio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a Mapiau Llwybrau'r cyfarwyddiaethau, er mwyn canolbwyntio ar risgiau a'u rheoli'n fwy effeithiol. Byddai'r gofrestr newydd ac asesiad risg wedi'i gwblhau yn cael eu cwblhau i'w gyflwyno i gyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf 2025.

Tynnodd SS sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

- Dau Risg Strategol a nodwyd yn ddiweddar
- Roedd risgiau un, dau a thri wedi'u cyfuno i'r Risg Strategol Un newydd.
- Byddai Risg Strategol Dau bellach o dan gylch gwaith y Pwyllgor hwn a oedd yn darparu esboniad cliriach o'r risg. Nododd SS y byddent yn gweithio gyda NL a'u tîm i gwblhau asesiad risg llawn ac i liniaru camau gweithredu a rheolaethau cyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf.



- Nid oedd newid yn y sgoriau ar gyfer Risg Strategol 4.

Diolchodd KY i SS am y diweddariad a rhoddodd ganmoliaeth i gynllun y papurau a gyflwynwyd.

Tynnodd TR sylw at y ffaith bod y Risg Strategol 3 newydd yn cynnwys sôn am weithlu arbenigol a chwestiynodd a ddylai'r risg hon hefyd fod o dan gylch gwaith y Pwyllgor. Cytunodd SS i roi ystyriaeth i'r cwestiwn hwn a'i drafod gyda NL/PV y tu allan i'r cyfarfod.

Nododd NL fod y dyddiad ar gyfer cwblhau adnewyddu'r strategaeth pobl wedi'i symud yn ôl er mwyn cwblhau rhywfaint o waith ymgysylltu ychwanegol yn ei chylch. Byddai'n cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol cyn ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai i'w gymeradwyo.

Cwestiynodd y Pwyllgor a oedd sgôr Risg 4 yn gostwng. Nododd SS fod y sgôr ar gyfer y risg hon wedi aros yr un fath, a gall sgoriau Risg Strategol gymryd amser i symud hyd yn oed ar ôl cymryd camau gweithredu. Nododd SS hefyd y byddai angen i'r Tîm Arweinyddiaeth asesu ac ail-fynegi'r camau gweithredu a'r rheolaethau ar gyfer y Risg Gorfforaethol sy'n gysylltiedig â Risg Strategol 4 er mwyn helpu i wella'r sgôr Risg Strategol. Tynnodd NL sylw at y ffaith bod arolwg pwls yn cael ei gynnal ym mis Mehefin i asesu a oedd y camau a roddwyd ar waith o ganlyniadau arolwg staff blaenorol yn effeithio'n gadarnhaol ar y sgôr risg.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Risgiau Strategol ac fe gafodd **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Strategol o fewn y sefydliad, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

**PODC 5/  
2025.04.29**

**Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Rhoddodd SS ddiweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Nododd y byddai'n cael ei hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ei safbwynt drafft presennol ar 30 Ebrill, cyn ei chyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.

Tynnodd SS sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:

- Cynhaliwyd ymchwiliad manwl i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yng nghyfarfod archwiliad dwfn y Tîm Arweinyddiaeth ym mis Mawrth.
- Risg 1541 – roedd hyn ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn diwedd mis Awst 2025.
- Risg 1596 – Teimlai'r Tîm Arweinyddiaeth fod angen diweddarau'r ffordd y mae'r risg hon wedi'i mynegi, a byddai'n ffocws ymchwiliad manwl gan y Tîm Arweinyddiaeth yn y dyfodol i edrych ar y risg a'i rheolaethau a'i chamau gweithredu.

Cwestiynodd y Pwyllgor a oedd risg 1596 yn gadael Iechyd Cyhoeddus Cymru yn agored i niwed a faint o effaith y gellid ei chael wrth ei lleihau. Nododd SS y gallai prosesau ac elfennau gweithredol fel cynllunio'r gweithlu gynorthwyo i leihau effaith y risg. Tynnodd NL sylw at y gwaith a wnaed mewn cynllunio'r gweithlu i nodi bylchau sgiliau a chysylltu â cholegau a phrifysgolion.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Corfforaethol o fewn y sefydliad, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

<b>Llywodraethu, Atebolrwydd a Risg</b>	
<b>PODC 6/ 2025.04.29</b>	<b>Diweddariad ar Bolisiau Corfforaethol Chwe Misol</b>
<p>Rhoddodd LB yr wybodaeth ddiweddaraf am statws adolygu polisiau a gweithdrefnau o dan gylch gwaith y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol.</p> <p>Nododd LB mai dim ond 2% o'r polisiau/gweithdrefnau o dan reolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd yn ddyledus i'w hadolygu.</p> <p><b>Sicrhawyd</b> y Pwyllgor ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wneir i adolygu polisiau, gweithdrefnau, a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.</p>	
<b>PODC 7/ 2025.04.29</b>	<b>Adolygiad Pwyllgor 2024/25 a Blaengynllun 2025/26</b>
<p>Rhoddodd LB drosolwg o bapurau adolygu'r Pwyllgor i'w cymeradwyo a'u hargymell i'r Bwrdd.</p> <p>Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad effeithiolrwydd y pwyllgor 2024/25</li> <li>• Cynllun Gwaith y Pwyllgor 2025/26</li> <li>• Cylch Gorchwyl y Pwyllgor – roedd hyn yn cynnwys cyfeiriad ychwanegol at Weithrediaeth y GIG, ond dim newidiadau arfaethedig eraill</li> </ul> <p>Nododd KY gwmpas y gwaith gan y pwyllgor dros 2024/25, a diolchodd i'r Bwrdd a thîm cymorth y Pwyllgor am eu gwaith tuag at redeg y Pwyllgor yn effeithiol.</p> <p>Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Ystyriwyd</b> crynodeb o'r adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Nodwyd y bydd Grŵp Cadeiryddion y Traws-bwyllgorau yn adolygu cynnydd gyda gweithredu'r camau gweithredu a'r camau nesaf yn ystod 2025/26.</li> <li>• <b>Argymhellodd</b> Grynodedb Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgorau system adolygu effeithiol a gwelliannau parhaus ar waith.</li> <li>• <b>Cymeradwywyd</b> Cynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 ac <b>argymhellwyd</b> y cynllun i'r Bwrdd ym mis Mai er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor y cynllun priodol ar waith ar gyfer 2025/26 i gyflawni ei gylch gorchwyl.</li> <li>• <b>Ystyriwyd</b> y newidiadau arfaethedig ac argymhellwyd y fersiwn ddiwygiedig arfaethedig o Gylch Gorchwyl y Pwyllgorau i'r Bwrdd i'w chymeradwyo ym mis Mai 2025. <b>Nodwyd</b> nad oes newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl a gweithdrefnau gweithredu'r Pwyllgor Safonol.</li> </ul>	
<b>Partneriaethau ac Ymgysylltu</b>	
<b>PODC 8/2025.04.29</b>	<b>Rhwydwaith Staff: Diweddariad ar Gamau Gweithredu</b>
<p>Rhoddodd NL yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gyda cheisiadau Rhwydwaith Amrywiaeth Staff i'r Bwrdd.</p> <p>Tynnodd NL sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:</p>	



- Y cynnydd a wnaed yn erbyn y gofynion a wnaed gan y Rhwydwaith a'u heffaith gadarnhaol ar y sefydliad
- Roedd mwyafrif y ceisiadau ar y trywydd iawn i'w cwblhau, gydag ychydig yn aros i gamau gweithredu gael eu cwblhau.

Diolchodd NL i gadeiryddion staff y rhwydwaith am eu gwaith a'u presenoldeb yng nghyfarfodydd y rhwydwaith. Nododd FG effaith gadarnhaol manau diogel rhwydweithiau ar ddiwylliant a llesiant staff.

Rhoddodd y Pwyllgor ganmoliaeth i'r cynnydd a wnaed yn y maes hwn, Nododd KY a ellid cynnwys gwaith y rhwydweithiau yng nghynhadledd y staff i dynnu sylw at eu gwaith. Nododd FG, ochr yn ochr â stondinau rhwydweithio, fod trafodaethau wedi'u cynnal ar sut y gellid hyrwyddo'r rhwydweithiau'n weithredol yn y gynhadledd.

Cwestiynodd y Pwyllgor hefyd a oedd cefnogaeth i'r rhai mewn prentisiaethau lleiafrifoedd ethnig symud i'r sefydliad ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Nododd FG y byddai hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â phrosiect i gyflwyno gweithdai a sgiliau cyfweiliad i hyrwyddo cynhwysiant.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd gyda cheisiadau a wnaed i'r Bwrdd gan y Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff hyd yn hyn.

<b>PODC 9/2025.04.29</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Y Fforwm Partneriaeth Lleol</b>
Rhoddodd NL drosolwg o'r Fforwm Partneriaeth Lleol a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.	
Nododd NL fod cyfarfodydd rheolaidd wedi digwydd, a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn trafodaethau a champau gweithredu ynghylch pynciau allweddol.	
Nododd NL hefyd fod UNISON yn parhau y tu allan i'r pwyllgor staff, ond fel rhan o'r camau nesaf (gan gynnwys etholiad ar 21 Mai) y byddent yn edrych i ddychwelyd i'r pwyllgor.	
Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad a'r adroddiad blynyddol er gwybodaeth ac <b>fe gymerodd sicrwydd</b> ynghylch yr wybodaeth a gynhwyswyd.	
<b>Er Gwybodaeth</b>	
<b>PODC 9/2025.04.29</b>	<b>Eitemau i'w Nodi</b>
<b>PODC 9.1/ 2025.04.29</b>	<b>Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu</b>
Dim.	
<b>PODC 9.2/ 2025.04.29</b>	<b>Y Gweithlu a Chynllunio'r Gweithlu</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Adroddiad Mewnwelediad Mis 12 - Gweithlu yn unig</b></li> </ul>	



<b>Nododd y Pwyllgor ddyfyniad y gweithlu o adroddiad Insight er gwybodaeth.</b>	
<b>PODC 9.3/ 2025.04.29</b>	<b>Partneriaethau ac Ymgysylltu</b>
Dim	
<b>PODC 9.4/ 2025.04.29</b>	<b>Llywodraethu, Atebolrwydd a Risg</b>
Dim	
<b>PODC 11/2025.04.29</b>	<b>Gweithrediaeth y GIG</b>
<p>Croesawodd KY RW i'r cyfarfod a'i llongyfarch ar ei rôl newydd yng Ngweithrediaeth y GIG.</p> <p>Darparodd RW grynodedb o adroddiad Gweithrediaeth y GIG a oedd yn ymdrin â'r pryderon a'r cwynion a adroddwyd ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r iaith Gymraeg, a chynlluniau ynghylch y gweithlu, hyd at y cyfnod ym mis Mawrth 2025.</p> <p>Tynnodd RW sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygiad diweddar o fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad, gyda'r nod o ymgorffori hyn ar draws y swyddogaethau gweithredol ochr yn ochr â chanlyniadau'r arolwg staff blynyddol.</li> <li>• Codwyd pedair cwyn yn ystod y cyfnod adrodd, ac roedd pob un ohonynt wedi'u datrys. Cynhaliwyd cyfarfodydd dadfrifio er mwyn casglu gwersi a ddysgwyd..</li> <li>• Ni chodwyd pryderon yn ystod y cyfnod adrodd.</li> <li>• Roedd adolygiad o gynllunio'r gweithlu wedi'i gwblhau a oedd yn adlewyrchu gofynion uniongyrchol ac yn nodi'r ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu rhaglen ddylunio sefydliadol dros y deuddeg mis nesaf.</li> </ul> <p>Diolchodd y Pwyllgor i RW am y diweddariad a nododd gwmpas y gwaith a wnaed.</p> <p>Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith nad oedd unrhyw gamau gweithredu wedi'u rhestru i fynd i'r afael â'r ffigur lleiafrif ethnig o fewn y Weithrediaeth. Nododd RW hyn a rhoddodd sicrwydd y byddai hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o gynlluniau parhaus ynghylch recriwtio staff.</p> <p>Cytunodd y Pwyllgor i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Nodi</b> cynnwys yr adroddiad hwn a derbyn sicrwydd bod trefniadau effeithiol ar waith</li> <li>• <b>Cael sicrwydd</b> bod trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant</li> <li>• <b>Cael sicrwydd</b> bod trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion yr iaith Gymraeg</li> <li>• <b>Cael sicrwydd</b> bod meysydd o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu rheoli'n briodol.</li> <li>• <b>Nodi</b> nad oes pryderon wedi'u hadrodd i Weithrediaeth y GIG yn ystod y cyfnod adrodd.</li> <li>• <b>Nodi</b> bod pedwar Cwyn wedi cael eu hadrodd i Weithrediaeth y GIG yn ystod y cyfnod adrodd.</li> <li>• <b>Cael sicrwydd</b> bod y rhain wedi cael eu rheoli'n briodol yn unol â phrosesau Iechyd Cyhoeddus Cymru</li> </ul>	



<b>Cael sicrwydd</b> bod gan Weithrediaeth y GIG broses briodol ar waith i ymgymryd â chynllunio'r gweithlu	
<b>PODC</b> <b>12/2025.04.29</b>	<b>Camau dod â'r cyfarfod i ben</b>
Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth ar y cyfarfod i Uned Fusnes y Bwrdd.	
Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.	
Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 16 Gorffennaf 2025.	
Daeth y cyfarfod i ben am 14:57	

UNCONFIRMED